# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Ceredigion

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Ceredigion i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Ceredigion 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn a methodd â bodloni 2.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Ceredigion 8 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Ceredigion wedi parhau i berfformio'n dda mewn rhai meysydd yn 2019/20, gyda datblygiadau cadarnhaol o ran adnoddau electronig yn arbennig. Mae Ceredigion yn parhau i fod yn y chwartel uchaf yng Nghymru o ran nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg gan oedolion a phlant, er bod cyfanswm y gwariant refeniw yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Mae Ceredigion hefyd wedi cynnal ei safle yng Nghymru o ran darparu deunyddiau Cymraeg a benthyciadau Cymraeg. Mae'r gwasanaeth yn un o bedwar gwasanaeth yn unig a fodlonodd y targed caffael. Bu datblygiadau cadarnhaol mewn nifer o feysydd a gwelliant yn Nangosydd Ansawdd 9 yn 2019/20. Fel y nodwyd yn ail flwyddyn y fframwaith, mae'r ffaith nad yw arolygon defnyddwyr ffurfiol wedi cael eu cynnal bellach ers o leiaf chwe blynedd a'r ffaith nad oes strategaeth o hyd yn destun siom.

- Erbyn hyn mae pob un o'r prif fannau gwasanaeth yn darparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a llesiant. Mae dwy astudiaeth achos yn dangos effaith fuddiol y gwasanaeth.
- Er bod nifer yr ymweliadau â safleoedd llyfrgell wedi gostwng ychydig, mae Ceredigion yn parhau'n uwch na'r canolrif yng Nghymru yn y maes hwn.
- Gwelwyd gostyngiad bach yn nifer y llyfrau oedolion a fenthycwyd, ond unwaith eto dim ond un awdurdod arall yng Nghymru sydd â mwy o fenthyciadau fesul pen o'r boblogaeth na Cheredigion, ac mae nifer y llyfrau plant a fenthycwyd wedi cynyddu. Ceredigion hefyd yw'r uchaf ond un yng Nghymru ar gyfer benthyciadau Cymraeg fesul pen o'r boblogaeth (sy'n siarad Cymraeg).
- Cyflawnir un elfen o'r targed caffael (DA 9), sy'n welliant ers ail flwyddyn y fframwaith, o ganlyniad i gynnydd yn y teitlau mewn bwndeli e-adnoddau. Mae Ceredigion yn un o bedwar awdurdod yn unig sydd wedi cyflawni'r targed hwn.
- Mae lefelau staffio wedi'u cadw ar lefelau 2018/19 ac mae Ceredigion yn parhau i gyflawni'r gofynion o ran staff cymwysedig (un o bedwar awdurdod yn unig sy'n gwneud hynny erbyn hyn). Er hyn, nodir nad yw'n debygol y gwelir rhagor o staff yn y dyfodol.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr

awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

## 2.1 Hawliau craidd

Mae Ceredigion yn cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac yn methu â chyflawni dwy. Mae'r sefyllfa yr un fath ag yr oedd yn 2017/18 a 2018/19. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad â defnyddwyr (HG 11) o dan y pumed fframwaith. Roedd cynlluniau i gynnal arolwg defnyddwyr ym misoedd Mawrth a Mai 2020. Cafodd y rhain eu canslo oherwydd Covid-19. O ganlyniad, ni lwyddwyd i ymgynghori â defnyddwyr yn y chweched fframwaith. Mae Ceredigion yn un o ddau awdurdod yn unig sydd wedi methu â chwblhau arolwg oedolion nac arolwg plant yn ystod y fframwaith, ac mae hyn yn siomedig gan fod ymgynghori â'r aelodau'n hanfodol fel sail i'r gwaith o bennu cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae HG 12 yn parhau heb ei chyflawni gan yw'r strategaeth llyfrgell wedi'i datblygu eto. Mae'r awdurdod yn nodi y bydd newid i System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan yn 2020/21 yn effeithio ar y gwaith hwn, gan na fydd cymaint o staff ar gael i ddatblygu strategaeth llyfrgell.

## 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Ceredigion yn cyflawni 8 ohonynt yn llawn, ac 1 ohonynt yn rhannol.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | √ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | √ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | √ | |
| d) Datblygu darllenwyr | √ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | √ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | √ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | √ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | √ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | √ | |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth | √ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Cyflawni'n llawn |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | √ | |
| neu Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | √ | |
| neu Wariant ar y Gymraeg fesul pen | √ | |
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | √ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | √ | |
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | √ | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | √ | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | √ | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | √ | |
| DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth | √ | Cyflawni'n llawn |

Mae Ceredigion wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith, ac mae gwelliant bach yn y caffaeliadau. Mae Ceredigion yn un o bedwar awdurdod lleol yn unig i gyflawni 8 DA yn llawn ac 1 yn rhannol.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Ni chynhaliodd Ceredigion arolwg oedolion nac arolwg plant yn y pumed a'r chweched fframwaith, ac mae'n un o ddau awdurdod sydd heb wneud hynny. Nodir bod Covid-19 wedi effeithio ar y cynlluniau eleni. Mae'n bwysig bod cyfeiriad y Gwasanaeth yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | dd/b | | 60% | 90% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | dd/b | | 11% | 81% | 99% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Ceredigion ddwy astudiaeth achos o'r fath, ond nid oeddent mor gryf â rhai o'r enghreifftiau a roddwyd gan awdurdodau eraill:

- Adeiladu cymunedau cynaliadwy – Y cysyniad o lyfrgelloedd fel canolfannau ailgylchu. Mae un aelod yn disgrifio ei ddiddordeb newydd yn y Llyfrgell a phwysigrwydd y Llyfrgell o safbwynt ffordd gynaliadwy o fyw, gan fod llyfrgelloedd yn rhannu adnoddau yn y gymuned.
- Mynd i'r afael ag ynysigrwydd – Rôl y Llyfrgell yn cefnogi un aelod o'r gymuned i gymryd rhan mewn clwb darllen, a gynhelir gan y Llyfrgell, a thrwy hynny'n lleihau ynysigrwydd. Mae'r llyfrgell yn darparu lle diogel i bobl gyfarfod, a gwneud ffrindiau newydd.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y mannau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Ceredigion ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag

1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2018/19* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | *[Fframwaith 6]* |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | dd/b | | 25% | 75% | 94% | dd/b |
| c) iechyd a lles | dd/b | | 38% | 69% | 96% | dd/b |
| d) lle diogel a chroesawgar | dd/b | | 90% | 96% | 100% | dd/b |
| DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | *[Fframwaith 6]* |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | dd/b | | 78% | 91% | 99% | dd/b |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | dd/b | | 88% | 97% | 100% | dd/b |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | dd/b | | 65% | 85% | 99% | dd/b |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | dd/b | | 85% | 96% | 100% | dd/b |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | dd/b | | 8.0 | 9.1 | 9.5 | dd/b |
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 4,012* | *10/22* | 2429 | 3987 | 6874 | *4,187* |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 1,183 | *20/22* | 239 | 909 | 2131 | *1,197* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 157 | *14/22* | 78 | 145 | 244 | *159* |
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen[2] | 1,134 | *2/22* | 311 | 680 | 1468 | *1,106* |
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul 10,000 | 7 | *18/22* | 4 | 9 | 14 | *7* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 28% | *11/22* | 14% | 30% | 64% | *27%* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £9,525 | *16/22* | £7,260 | £12,448 | £23,333 | *£10,467* |
| b) % ar staff | 76% | *=1/22* | 48% | 61% | 76% | *68%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 19% | *=3/22* | 5% | 13% | 22% | *15%* |
| % ar offer ac adeiladau | 0% | *19/22* | 0% | 8% | 28% | *5%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 5% | *20/22* | 1% | 18% | 35% | *12%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £0 | *=22/22* | £0 | £1,567 | £13,027 | *£0* |
| DA 16 – Oriau agor[3] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.00% | *=1/22* | 0.00% | 0.23% | 3.96% | *0.00%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 1.87% | *18/22* | 0.00% | 1.07% | 5.41% | *7.99%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; [2] fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; [3] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

## 3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r

perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

### 3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)[i]

Fel y nodwyd yn gynharach, ni cynhaliodd Ceredigion arolwg oedolion nac arolwg plant yn ystod y fframwaith cyfredol. Nodir bod yr arolygon defnyddwyr a oedd wedi'u cynllunio wedi'u canslo oherwydd Covid-19. Mae pob llyfrgell sefydlog sydd ar agor am fwy na 10 awr yn parhau i ddarparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a llesiant. Gwelwyd cynnydd yn nifer y clybiau llyfrau.

### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)[ii]

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae Ceredigion wedi parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac mae wedi aros yn gyson ers blwyddyn gyntaf y fframwaith. Er bod nifer yr ymweliadau â safleoedd llyfrgell wedi gostwng ychydig, mae Ceredigion yn parhau yn uwch na'r canolrif yng Nghymru yn y maes hwn. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer y benthycwyr gweithredol, ac mae nifer yr aelodau fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Mae cyfanswm yr ymweliadau allanol â gwefan y llyfrgell wedi gweld cynnydd sylweddol er 2017/18, â nifer yr ymweliadau'n treblu bron yn ystod y cyfnod hwn. Mae nifer y llyfrau plant a fenthycwyd hefyd wedi cynyddu 25% ers blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith. Er bod gostyngiad bach yn nifer y llyfrau oedolion a fenthycwyd, dim ond un awdurdod arall yng Nghymru sydd â mwy o fenthyciadau fesul pen o'r boblogaeth unwaith eto. Gwelwyd cynnydd sylweddol o 230% mewn lawrlwythiadau electronig, ac erbyn hyn mae Ceredigion yn y chwartel uchaf yng Nghymru.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[iii]

Cyflawnir un elfen o'r targed caffael (DA 9) (nifer yr eitemau sy'n cael eu caffael fesul pen o'r boblogaeth), ac mae hyn yn welliant ers ail flwyddyn y fframwaith. Mae Ceredigion yn un o bum awdurdod sydd wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae'r eitemau sydd wedi'u caffael wedi cynyddu 56% er 2017/18, er bod y gwasanaeth yn nodi bod hyn o ganlyniad i nifer yr e-adnoddau sydd wedi'u caffael. Mae'r gwasanaeth yn parhau'n ddibynnol ar roddion (er nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn adroddiadau Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru). Mae nifer y benthyciadau Cymraeg wedi parhau i gynyddu, ac mae'r gwasanaeth wedi cofnodi'r lefel uchaf ond un o fenthyciadau Cymraeg fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Mae'n parhau i gyflawni'r targed ar gyfer gwariant ar eitemau Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron personol wedi'i chynnal ar lefelau 2017/18 a 2018/19. Mae'r defnydd o gyfrifiaduron personol wedi cynyddu ychydig ond mae'n parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau, er nad yw'n rhan o gynllun benthyciadau rhwng llyfrgelloedd rhanbarthol. Mae nifer yr eitemau sy'n cael eu danfon gan y gwasanaeth wedi cynyddu yn y maes hwn, gan arwain at gynnydd cadarnhaol iawn yn y maes.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)[iv]

Mae lefelau staffio wedi'u cynnal ar y lefelau blaenorol, ac mae Ceredigion yn parhau i gyflawni'r gofynion o ran staff cymwysedig (un o bedwar awdurdod yn unig sy'n gwneud

hynny erbyn hyn). Nid yw cyfanswm y staff yn cyflawni'r targed, a nodir nad yw staff ychwanegol yn debygol yn y dyfodol. Mae arweinyddiaeth gymwysedig ar waith o hyd. Mae cyfanswm gwariant refeniw'r gwasanaeth wedi gostwng ychydig yn 2019/20, ac mae wedi gostwng 7% er 2017/18. Mae gwariant yn is na'r canolrif yng Nghymru, ac mae Ceredigion yn y chwartel isaf yng Nghymru yn y maes hwn. Mae oriau agor blynyddol cyfanredol wedi'u cynnal ar lefelau 2017/18 a 2018/19, ac mae'r perfformiad yma yn parhau ymhlith yr uchaf yng Nghymru.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Dywedodd Ceredigion fod y gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn nifer o ffyrdd. Mae'r enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys cyfraniad y gwasanaeth at Gymru fwy ffyniannus drwy'r ddarpariaeth dysgu gydol oes; at Gymru fwy cydnerth drwy ddarparu gwasanaethau'r Cyngor; at Gymru iachach drwy gefnogi unigolion sydd â dementia ac at Gymru fwy cyfartal drwy leihau anghydraddoldeb digidol â'i ddarpariaeth TG. Mae'r gwasanaeth yn parhau i nodi ymrwymiad cryf i ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Mae'r gwasanaeth yn nodi bod cyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a'i gynlluniau'n ansicr o ganlyniad i effeithiau Covid-19. Nododd Ceredigion yn 2017/18 ei fod yn cynnal adolygiad llawn o strategaethau a pholisïau. Yn anffodus, mae Covid-19 wedi effeithio ar hyn yn 2019/20. Daeth cynlluniau i ymuno â System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan i stop yn ystod haf 2020 oherwydd Covid-19, a'r gobaith oedd y byddai modd cyflawni hyn ym mis Rhagfyr 2020. Nid yw cyfeiriad y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol yn glir o'r naratif, ond nodwyd bod pwysau ariannol yn debygol o effeithio ar adnoddau electronig o ystyried y gostyngiad yn y cyfraddau defnyddio. Nodir bod yr ystâd wedi'i moderneiddio'n llwyr, ac y bydd pwyslais ar sicrhau bod y llyfrgelloedd yn parhau'n adeiladau diogel, atyniadol a hygyrch i bawb.

## 6 Casgliad

Mae Ceredigion wedi parhau i berfformio'n dda mewn rhai meysydd yn 2019/20, gyda datblygiadau cadarnhaol o ran adnoddau electronig yn arbennig. Mae Ceredigion yn parhau yn y chwartel uchaf yng Nghymru o ran nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg gan oedolion a phlant, er bod cyfanswm y gwariant refeniw yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Mae Ceredigion hefyd wedi cynnal ei safle yng Nghymru o ran darparu deunyddiau Cymraeg a benthyciadau Cymraeg. Mae'r gwasanaeth yn un o bedwar gwasanaeth yn unig a fodlonodd y targed caffael. Bu datblygiadau cadarnhaol mewn nifer o feysydd a gwelliant yn Nangosydd Ansawdd 9 yn 2019/20. Fel y nodwyd yn ail flwyddyn y fframwaith, mae'r ffaith nad yw arolygon defnyddwyr ffurfiol wedi cael eu cynnal bellach ers o leiaf chwe blynedd a'r ffaith nad oes strategaeth o hyd yn destun siom.

---

[i] *Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.*

[ii] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.*

[iii] *Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.*

[iv] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.*